Pennaeth Economi a Chymuned
Head of Economy & Community
Sioned E. Williams

Gofynnwch am/Ask for: Sioned E Williams
☎ (01286) 679547

Ein Cyf / Our Ref: **SEW/ gh**
Eich Cyf / Your Ref:

SionedEWilliams@gwynedd.gov.uk

8 Mai, 2014

Mr. Gareth Jones,
Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio.

Annwyl Gareth,

Cais Cynllunio: **White House Hotel Abersoch**
Rhif Cais: C13/0403/39/LL

Cyfeiriaf at eich llythyr dyddiedig 17 Ebrill 2014 yn gwahodd sylwadau ar y cais uchod.

Hoffwn gadarnhau cefnogaeth lwyr Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd i'r cais hwn.

Mae safle'r cyn Gwesty White House yn segur ac yn ddolur llygaid mewn lleoliad amlwg yn Abersoch sydd yn niweidiol i'r gyrchfan dwristiaeth. O ystyried arwyddocâd twristiaeth i Ben Llyn ac i economi Gwynedd (£917 miliwn y flwyddyn a 16,000 o swyddi) , mae Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd yn credu fod ail ddatblygu safle'r yma yn un o flaenoriaethau ar gyfer yr ardal.

Dim ond 6% o'r 125,000 o leoedd cysgu i ymwelwyr yng Ngwynedd sydd yn llety â gwasanaeth ac mae Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd 2013 - 2020 yn nodi fod yr amrywiaeth cyfyngedig o lety â gwasanaeth (yn enwedig gwestai o safon) yn cyfyngu ar gyfleoedd i ymestyn y tymor. Mae Gwynedd angen mwy o amrywiaeth o ddarpariaeth llety wedi ei wasanaethu os am fanteisio mwy ar y farchnad ymwelwyr. Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda darparwyr llety ers nifer o flynyddoedd er mwyn ceisio denu buddsoddiad i'r ardal ond prin iawn ydi'r diddordeb wedi bod oherwydd y gwahaniaeth rhwng y gost o ddatblygu a gwerth yr adnodd fel busnes.

O ystyried fod y datblygiad arfaethedig yn llety o ansawdd a'r gyflogaeth i'r ardal yn sylweddol yn ystod y cyfnod adeiladu a thu hwnt (65 FTE yn ystod yr adeiladu a 65FTE uniongyrchol i redeg y busnes wedyn, all godi i 120 o swyddi ganol haf; gyda chyfle i sbarduno 22 swydd anuniongyrchol yn yr ardal yn ei sgil) mae'r datblygiad yn cyfrannu i'n hamcanion economaidd.

Mae Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd yn adnabod y bwriad i ddatblygu Cynllun Cyflogaeth ar gyfer ardal Llyn ac Eifionydd. Mae gwaith dadansoddi'r economi eisoes wedi cychwyn ac mae trefniadau mewn lle i fod yn datblygu rhaglen waith gydag Aelodau ardal Dwyfor. Er mai'r nod fydd ceisio sicrhau amrywiaeth o swyddi ar draws yr ardal mewn amrywiaeth o sectorau economaidd, does dim dwywaith y bydd swyddi twristiaeth yn bwysig i gynnal cymunedau gwledig Pen Llyn. Byddai'r 65 swydd newydd llawn amser a'r buddsoddiad o £1.5 miliwn flynyddol i'r economi leol yn gallu cyfrannu i dargedau'r Cynllun Cyflogaeth yn y tymor byr.

Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd. LL55 1SH
01286 672255
www.gwynedd.gov.uk

Mae'r Adran wedi cydweithio gyda'r ymgeisydd er mwyn adnabod cyfleoedd i uchafu'r budd economaidd lleol o'r buddsoddiad yma. Mae'r Cyngor yn cefnogi'r fethodoleg sydd wedi cael ei defnyddio i fesur yr effaith economaidd ac yn croesawu'r camau sydd wedi eu cymryd i gynllunio i gadw'r budd yn lleol. Mae cymorth ar gael i'r cwmni i gydweithio gyda'r Coleg ag ysgolion er mwyn sicrhau bod darpariaeth addas o sgiliau ar gael i fanteisio ar y cyfleoedd yn deillio o'r buddsoddiad. Byddwn yn cynnig gwasanaeth i'r Cwmni hefyd i godi eu hymwybyddiaeth o gynhyrchwyr a darparwyr lleol yn ogystal i gymorth i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

Os nad yw'r cais yma yn llwyddo mae pryder y byddwn wedi colli'r cyfle i sicrhau budd economaidd i ardal Pen Llyn o'r safle. Mae'r Adran wedi ystyried yr achos busnes ac yn cytuno gyda dadansoddiad yr ymgeisydd o werthoedd busnes sydd yn sail i'r cynnig mewn perthynas â'r cyfraniad i Dai Fforddiadwy. Mae'r unedau tai yn allweddol i ariannu datblygiad y Gwesty. Er mwyn cwrdd â gofynion y polisi tai fforddiadwy yn llwyr, ystyrir mai datblygiad tai preifat fyddai'r unig ddatblygiad masnachol fyddai'n gallu digwydd ar y safle, fyddai ddim wrth gwrs yn arwain at greu cyflogaeth leol tymor hir.

Dwi'n croesawu'r cyfle i gael mynegi sylwadau ar y datblygiad arfaethedig. Mae croeso ichi gysylltu â mi i drafod unrhyw agwedd ymhellach.

Yn gywir,

Sioned E. Williams
Pennaeth Economi a Chymuned

Copi: Iwan Trefor Jones
Aled Davies
Cyng. John Wyn Williams
Cyng. John Wynn Jones